**PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET**

**(Council Chamber - Port Talbot Civic Centre)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Mercher, 20 Tachwedd 2019** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | S.apDafydd, S.E.Freeguard, S.A.Knoyle, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, L.M.Purcell, S.M.Penry a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Phillips, A.Evans, H.Jenkins, G.Nutt, K.Jones, A.Thomas, C.Griffiths, H.Jones, P.Walker, C.Davies a/ac T.Davies |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, D.Jones, R.G.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards, A.J.Taylor a/ac A.Wingrave |

---

1. **DEWIS EITEMAU PRIODOL O AGENDA Y CABINET (ADRODDIADAU Y CABINET YN AMGAEEDIG AR GYFER YR AELODAU CRAFFU)**

Craffodd y pwyllgor yr eitemau cabinet canlynol:

Model Amgen – Cyngor Pobl Hŷn

Nid yw'r Cyngor Pobl Hŷn (CPH) wedi cael ei adolygu ers ei sefydlu yn 2005. Gyda phoblogaeth gynyddol hŷn, ynghyd â materion cyfnewidiol sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn, a newidiadau mawr i ofal cymdeithasol i oedolion, roedd yn amserol sefydlu math o fodel gwahanol.

Pwysleisiodd y Cynghorwyr mor bwysig oedd hi i leisiau pobl hŷn gael eu clywed yn glir o fewn Castell-nedd Port Talbot. Roedd trafodaethau wedi'u cynnal yn ystod y 2 flynedd diwethaf gydag aelodau o'r CPH, yn ogystal â chydag amrywiol grwpiau eraill yn y gymuned leol sy'n ymgysylltu â phobl hŷn. Y bwriad oedd cynnal

symposiwm tua mis Ebrill 2020 i siarad â phobl hŷn am y materion sy'n effeithio ar eu bywydau. Byddai cyfuniad o ddulliau ychwanegol yn cael eu defnyddio i gasglu barn pobl hŷn, gan gynnwys drwy'r rhyngrwyd ac wyneb yn wyneb.

Cafwyd canmoliaeth gan y Cynghorwyr i waith y CPH presennol, a nodwyd y gallai'r un aelodau fod yn rhan o'r fforwm newydd wedi'i ailfodelu, os dyna'u dymuniad. Pwysleisiodd y Cynghorwyr bwysigrwydd casglu barn cynrychiolwyr pobl hŷn, fel gofalwyr er enghraifft.

Nodwyd na fyddai unrhyw newid i'r meini prawf oedran presennol, ac y byddai pobl hŷn yn cael ymuno o hanner cant oed.

Ar ôl craffu, roedd y pwyllgor yn cefnogi'r cynigion i'r cabinet eu hystyried.

2. **<u>BLAENRAGLEN WAITH 19/20</u>**

Cynghorodd y swyddog craffu'r Cynghorwyr fod nifer o ddyddiadau wedi'u newid oherwydd Etholiad Seneddol y DU a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer 12 Rhagfyr 2019. Roedd y flaenraglen waith wedi'i diweddaru yn unol â hynny.

Nododd y pwyllgor y Flaenraglen Waith ar gyfer 2019/20.

**CADEIRYDD**